# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd o 2 i 9 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

8 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

12 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

13 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

16 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

23 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

25 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Amrywiaeth Ddaearyddol Cymru

**Dafydd Wigley:** Pa gamau y mae'r Prif Weinidog am eu cymryd i sicrhau bod ei Lywodraeth yn deall ac yn adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol Cymru? (WAQ17283) [W]

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Mae pob un o aelodau'r Cabinet yn deall ac yn adlewyrchu amrywiaeth ddaearyddol Cymru yn eu gwaith. Hefyd, mae fy ngwaith fel cydlynydd polisi Llywodraeth y Cynulliad yn y Gogledd yn fy ngalluogi i gadw golwg, yn gyffredinol, ar sut y mae penderfyniadau, penodiadau a pholisïau'r Cabinet yn effeithio ar yr amrywiaeth o gymunedau, ardaloedd a rhanbarthau yng Nghymru.

### Monitro'r Cabinet

**Nick Bourne:** Sut mae Prif Weinidog Cymru yn monitro pa mor effeithiol yw ei Gabinet? (WAQ17284)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at yr ateb a roddais i WAQ14039 Alun Cairns ar 12 Tachwedd 2001.

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol tra ar Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17289)

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

### Ceir Gweinidogol

**David Davies:** Faint o geir y Gweinidogion sy'n rhedeg ar nwy hylif petrolewm? (WAQ17299)

**Prif Weinidog Cymru:** Dim un ar hyn o bryd, ond pan fyddwn yn cael gwared â cheir y Gweinidogion yn y dyfodol, byddwn yn archwilio'r posibilrwydd o brynu modelau a all redeg ar nwy hylif petrolewm yn eu lle.

### Ymddiswyddiad Gweinidogion a Dirprwyon (Difrod Troseddol)

**Peter Rogers:** Ai polisi Prif Weinidog Cymru yw gofyn am ymddiswyddiad Dirprwy Weinidog sy'n cefnogi difrod troseddol yn erbyn eiddo'r Cynulliad? (WAQ17422)

**Peter Rogers:** Ai polisi Prif Weinidog Cymru yw gofyn am ymddiswyddiad Gweinidog sy'n cefnogi difrod troseddol yn erbyn eiddo'r Cynulliad? (WAQ17423)

**Prif Weinidog Cymru:** Ie.

### Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (Difrod Troseddol)

**Peter Rogers:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar safbwynt ei Lywodraeth ynghylch gweithredu yn erbyn eiddo'r Cynulliad gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg? (WAQ17421)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn condemnio pob gweithred sy'n cynnwys difrod troseddol i'w eiddo ef neu eiddo person, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i geisio dod â drwgweithredwyr troseddau o'r fath o flaen eu gwell.

Mae Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad yn nesáu tuag at ddiwedd adolygiad cynhwysfawr o'r polisi iaith Gymraeg ac mae'n debygol o adrodd ar ei gasgliadau yn ystod yr haf. Bydd datganiad polisi'r Llywodraeth yn dilyn mewn ymateb i'r adroddiad hwnnw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol tra ar Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17292)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

### Cyllid Bwrdd Croeso Cymru

**David Davies:** Beth yw cyllideb flynyddol Bwrdd Croeso Cymru am bob blwyddyn ers 1997? (WAQ17433)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Dyma gyllideb flynyddol Bwrdd Croeso Cymru am bob blwyddyn ers 1997:

| Blwyddyn Ariannol | Cyllideb* |
|---|---:|
| 1996-97 | £14.7 miliwn |
| 1997-98 | £14.6 miliwn |
| 1998-99 | £14.7 miliwn |
| 1999-00 | £15.4 miliwn |
| 2000-01 | £15.4 miliwn |
| 2001-02 | £20 miliwn |
| 2002-03 | £22.7 miliwn |

* Y Gyllideb a bennwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol

### Incwm o Dwristiaeth

**David Davies:** Faint o incwm sydd wedi dod o dwristiaeth yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17434)

**Andrew Davies:** Amcangyfrifir bod y gwariant o dwristiaeth yng Nghymru yn £2.7 biliwn yn 2000 ac yn £2.7 biliwn yn 2001*.

Ffynhonnell: Bwrdd Croeso Cymru
* Nid yw ffigur 2001 yn cyfrif twristiaeth dramor—nid yw'r data ar gael eto. Oherwydd y newidiadau a wnaed i fethodoleg arolwg twristiaeth y DU ni ellir cymharu'r canlyniadau o flynyddoedd blaenorol yn uniongyrchol gyda'r data o arolwg 2000 ymlaen.

### Arian y Cynulliad a roddir i Fwrdd Croeso Cymru

**David Davies:** Faint o arian y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i roi i Fwrdd Croeso Cymru bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17435)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi'r symiau canlynol o arian i Fwrdd Croeso Cymru ers 1999:

| Blwyddyn ariannol | Cyfanswm y cyllid a dalwyd |
|---|---|
| 1998-99 | £16.6 miliwn |
| 1999-2000 | £16.0 miliwn |
| 2000-01 | £16.5 miliwn |
| 2001-02 | £27.0 miliwn |

### Niferoedd Staff ym Mwrdd Croeso Cymru

**David Davies:** Faint o staff sydd wedi cael eu cyflogi gan Fwrdd Croeso Cymru bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17436)

**Andrew Davies:** Dyma nifer y staff a gyflogwyd gan Fwrdd Croeso Cymru ers 1999:

| Blwyddyn ariannol | Nifer y staff |
|---|---|
| 1998-99 | 106 |
| 1999-00 | 102 |
| 2000-01 | 104 |
| 2001-02 | 105 |

### Hyrwyddo Twristiaeth mewn Ardaloedd Gwledig

**David Davies:** Faint y mae Bwrdd Croeso Cymru wedi'i wario ar hyrwyddo twristiaeth mewn ardaloedd gwledig bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17437)

**Andrew Davies:** Nid oes modd rhannu'r data hwn yn wariant gwledig a gwariant trefol. Serch hynny, ers 1999, mae Bwrdd Croeso Cymru wedi gwario'r symiau canlynol ar hybu twristiaeth yng Nghymru:

| Blwyddyn ariannol | Gwariant marchnata |
|---|---|
| 1998-99 | £6.3 miliwn |
| 1999-00 | £8.0 miliwn |
| 2000-01 | £7.7 miliwn |
| 2001-02 | £14.0 miliwn |

### Hyrwyddo Twristiaeth mewn Ardaloedd Dinesig

**David Davies:** Faint o arian y mae Bwrdd Croeso Cymru wedi'i wario ar hyrwyddo twristiaeth mewn ardaloedd dinesig bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17438)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ17437.

### Cyfartaledd Incwm Blynyddol Gwestai sy'n cael eu Rhedeg yn Breifat

**David Davies:** Beth yw cyfartaledd incwm blynyddol gwestai sy'n cael eu rhedeg yn breifat yng Nghymru bob blwyddyn ers 1999? (WAQ17439)

**Andrew Davies:** Dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Croeso Cymru fod trosiant blynyddol cyfartalog yr holl westai preifat yng Nghymru yn £390,000.

### Gwestai a Thafarndai Cau

**David Davies:** Faint o westai sydd wedi'u cau yng Nghymru ers 1999? (WAQ17440)

**David Davies:** Faint o dafarndai sydd wedi'u cau yng Nghymru ers 1999? (WAQ17441)

**Andrew Davies:** Mae data ar gael am fusnesau yn y sector gwestai a'r sector bwytai, gan gynnwys tafarndai, drwy'r gofrestr TAW. Mae'r data hwn yn cynnwys nifer y busnesau a ddatgofrestrodd ar gyfer TAW, a gellir defnyddio hyn fel dangosydd ar gyfer y busnesau sydd wedi cau. Nid oes modd rhannu hwn yn westai a thafarndai. Yr oedd nifer y gwestai a'r bwytai a ddatgofrestrodd ar gyfer TAW yn 1999 yn 920, ac yn 2000 yr oedd yn 890. Nid oes gwybodaeth mwy diweddar ar gael eto.

**Niferoedd y Twristiaid**

**David Davies:** Faint o dwristiaid sydd wedi ymweld â Chymru bob blwyddyn ers 1999? (WQA17442)

**Andrew Davies:** Mae'r wybodaeth am nifer y twristiaid sydd wedi ymweld â Chymru i'w gweld isod.

| | Tripiau (miliynau) | |
|---|---|---|
| | **2000** | **2001** |
| Twristiaeth ddomestig (DU)* | 13.4 | 11.5 |
| Twristiaeth dramor | 0.98 | (AMH) |
| Ymweliadau dydd twristiaeth** | 47.9 | 47.9 |

* nifer y nosweithiau y bu i ymwelwyr y DU aros (gan gynnwys o Gymru)
** ymweliadau dydd o dair awr neu hwy (gan gynnwys o Gymru). Amcangyfrifon yw'r ffigurau sy'n seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf o arolwg ymweliadau dydd DU 1998.

Ffynhonnell: Bwrdd Croeso Cymru (oherwydd y newidiadau a wnaed i fethodoleg arolwg twristiaeth y DU ni ellir cymharu'r canlyniadau o flynyddoedd blaenorol yn uniongyrchol gyda'r data o arolwg 2000 ymlaen.

**Safle Cymru yng Nghynghrair Cysylltedd y DU**

**Ron Davies:** Pa wybodaeth y mae'r Gweinidog wedi'i chael ynghylch safle Cymru yng nghynghrair cysylltedd y DU ar gyfer y tair blynedd diwethaf? (WAQ17464)

**Andrew Davies:** Mae'r astudiaeth meincnodi flynyddol a gynhyrchir gan yr Adran Diwydiant a Masnach drwy'r DU-gyfan yn cynnwys tablau cysylltedd wedi'u dadansoddi fesul ardal ddaearyddol. Dywed adroddiad 2001 fod gan fusnesau yng Nghymru gyfradd cysylltedd (*) o 80 y cant (**), o'i gymharu â 69 y cant (*) yn 2000 a 48 y cant (*) yn 1999. Dengys y naid sylweddol hon fod busnesau yng Nghymru yn gwirioneddol ddechrau sylweddoli'r manteision o gynnal busnes yn electronig.

(*) Golyga cysylltedd fod gan fusnesau'r canlynol: gwefan farchnata, eu bod yn defnyddio e-bost allanol yn aml a/neu'n rhedeg cyfnewidfa ddata electronig.
(**) Mae'r ffigurau wedi'u pwysoli ar sail cyflogaeth.

**Prosiectau a Ariennir o dan y Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol**

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r prosiectau penodol a ariennir o dan linell wariant cyllideb cronfa fenthyciadau genedlaethol/cyfalaf difidend cyhoeddus Awdurdod Datblygu Cymru a nodwyd yn y gyllideb datblygu economaidd? (WAQ17470)

**Andrew Davies:** Mae llinell gwariant cyllideb y gronfa fenthyciadau genedlaethol/cyfalaf difidend cyhoeddus yn darparu nawdd i gefnogi cronfa arloesi Cymru a'r gronfa fenthyciadau bach a weithredir gan Gyllid Cymru. Ychwanegwyd at y ddau gynllun gyda buddsoddiadau o'r sector preifat ac maent ar gael ym mhob rhan o Gymru.

**Cwmnïau yn Ceisio am Grantiau Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

**Gareth Jones:** Faint o gwmnïau wnaeth geisio am grantiau cymorth rhanbarthol dewisol yng Nghonwy yn y 9 mis ers 1 Ebrill 2001? (WAQ17546) [W]

**Gareth Jones:** Faint o gwmnïau yng Nghonwy a fu'n llwyddiannus wrth geisio am grantiau cymorth rhanbarthol dewisol yn y 9 mis ers Ebrill 2001? (WAQ17547) [W]

**Andrew Davies:** Pump.

## Cymorth Rhanbarthol Dewisol (Gwella'r Strwythurau)

**Gareth Jones:** A oes cynlluniau i wella'r strwythurau hyrwyddo grantiau cymorth rhanbarthol dewisol i gwmnïau yng ngogledd Cymru, yn yr ardaloedd (megis Conwy) lle mae niferoedd y grantiau a roddwyd cyn belled yn isel? (WAQ17548) [W]

**Andrew Davies:** Cafodd grant buddsoddi y Cynulliad ei lansio ar 1 Ebrill ac fe'i croesawyd gan fusnesau. Cafwyd cyflwyniadau eisoes yng ngogledd Cymru i hysbysu'r cynllun i sefydliadau ac mae mwy ar y gweill. Mae rhai o nodweddion y cynllun grant yn debyg i'r cymorth rhanbarthol dewisol, ond mae ganddo drefn symlach i wneud ceisiadau ac fe'i anelir at fentrau bach a chanolig eu maint, sef maint y rhan fwyaf o fusnesau Conwy.

**Perfformiad Gwynedd a Chonwy (Cymorth Rhanbarthol Dewisol)**

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar berfformiad cymharol Gwynedd a Chonwy yn creu a diogelu swyddi drwy gymorth rhanbarthol dewisol? (WAQ17549) [W]

**Andrew Davies:** Yn y cyfnod rhwng 27 Gorffennaf 2000, pan roddwyd statws ardal gymorth i Sir Conwy a 31 Mawrth 2002, rhoddwyd cyfanswm o £3,120,700 o gynigion grant cymorth rhanbarthol dewisol i 13 o gwmnïau yng Nghonwy i greu 464 o swyddi a diogelu 26. Yn ystod yr un cyfnod rhoddwyd cyfanswm o £33,997,700 o gynigion grant cymorth rhanbarthol dewisol i 36 o gwmnïau yng Ngwynedd i greu 1,733 o swyddi a diogelu 1,052. Mae'r grant a dalwyd mewn gwirionedd a'r swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd yn dibynnu ar gynnydd prosiectau unigol. Caiff y grant cymorth rhanbarthol dewisol ei hyrwyddo i'r un graddau yng Nghonwy ac yng Ngwynedd ond efallai fod grant buddsoddi Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddiddordeb arbennig i gwmnïau llai Conwy.

**Perfformiad Conwy (Amcan 1)**

**Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar berfformiad Conwy yn creu a diogelu swyddi drwy grantiau Amcan 1? (WAQ17550) [W]

**Andrew Davies:** Cymeradwywyd 12 o brosiectau lleol o fewn ardal Amcan 1 Conwy gyda chyfanswm grant o £5.5 miliwn. Rhagwelir y bydd y prosiectau hyn yn creu 300 o swyddi ac yn diogelu 500. Yn ogystal â'r prosiectau lleol hyn, cymeradwywyd nifer o brosiectau ar gyfer gogledd Cymru yn ei gyfanrwydd neu ranbarth Amcan 1 gorllewin Cymru a'r Cymoedd, fydd hefyd o fudd i ardal Conwy.

**Cymharu Perfformiad Conwy (Amcan 1 a Chymorth Rhanbarthol Dewisol)**

**Gareth Jones:** Sut y mae perfformiad Conwy wrth greu a diogelu swyddi drwy grantiau Amcan 1 yn cymharu â'i berfformiad cymharol wael yn derbyn grantiau cymorth rhanbarthol dewisol? (WAQ17551) [W]

**Andrew Davies:** Nid yw'n ddefnyddiol cymharu Amcan 1 â chymorth rhanbarthol dewisol; mae gan y cynlluniau hyn feini prawf cymhwyster ac amcanion gwahanol a marchnad wahanol i'w thargedu, a chânt eu gweinyddu yn wahanol. Nid oes ffordd ystyrlon felly o gymharu perfformiad y ddau gynllun.

### Gweinyddwr Cwynion Dŵr Daear Annibynnol

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'r Cynulliad neu Awdurdod Harbwr Caerdydd yn talu costau cyflogau, offer a chostau eraill sy'n gysylltiedig â chyflogi'r gweinyddwr cwynion dŵr daear annibynnol yn unol â'r cyhoeddiad ar 16 Ebrill 2002? (WAQ17563)

**Andrew Davies:** Llywodraeth y Cynulliad sy'n penodi'r gweinyddwr cwynion dŵr daear annibynnol. Penodiad ffi-daledig ydyw ac nid yw'r gweinyddwr hwn yn gweithio i'r Goron, i Gyngor Sir Caerdydd nac i Awdurdod Harbwr Caerdydd. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gyfrifol am dalu ffïoedd a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r swydd gweinyddwr ond, am resymau gweinyddol, telir y rhain drwy'r cyngor neu'r awdurdod harbwr.

O fewn elfen 'cost benodol/cyfrifedig' y gyllideb fel rhan o'r nawdd cyffredinol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cyllideb o £20,000 y flwyddyn i'r cyngor/awdurdod harbwr i dalu costau'r gweinyddwr. Caiff y swm hwn ei fynegrifo. Dylid sylwi hefyd y gellid bod gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnig indemniad ariannol cyfyngedig pe cyfyd camau cyfreithiol yn sgîl unrhyw benderfyniad a wna'r gweinyddwr.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol tra ar Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17298) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan Brif Weinidog Cymru ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

### Gwariant ar Hysbysebu

**David Davies:** Faint sydd wedi'i wario ar hysbysebu ar faterion o fewn portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol diwethaf? (WAQ17480)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg (Jenny Randerson):** Dyma faint a wariwyd ar hysbysebion, yn y wasg ac ar y cyfryngau, ar faterion o fewn portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg ym mhob un o'r tair blynedd ariannol ddiwethaf:

- £40,064 yn 1999-2000 (ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 1999 a 31 Mawrth 2000)
- £10,078 yn 2000-01
- £15,082 yn 2001-02.

### Cyllid ar gyfer Stadiwm y Mileniwm

**Rod Richards:** Pa gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Stadiwm y Mileniwm, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ17490)

**Jenny Randerson:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu unrhyw gyllid i Stadiwm y Mileniwm ar hyn o bryd, ond yn y cyfnod cyn Cwpan Rygbi'r Byd 1999, cyfrannodd £3 miliwn, drwy Awdurdod Datblygu Cymru, i adeiladu rhodfa'r afon.

Darparodd y Cynulliad Cenedlaethol hefyd £250,000 yn 2001-02 fel cyfraniad tuag at y costau arbennig a oedd yn gysylltiedig â chynnal gêm derfynol Cwpan yr FA a digwyddiadau cysylltiedig.

### Cyllid ar gyfer Undeb Rygbi Cymru

**Rod Richards:** Pa gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Undeb Rygbi Cymru, ac a wnaiff y Gweinidog ddatganiad? (WAQ17491)

**Jenny Randerson:** Drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi datblygiad rygbi yng Nghymru drwy ddarparu, ar gyfartaledd, oddeutu £69,000 y flwyddyn dan y rhaglen Cist Gymunedol—oddeutu 9 y cant o gyfanswm y cyllid ar gyfer yr holl chwaraeon. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cynghorydd gyrfa ac addysg athletwyr (£13,500 yn 2001-02), prosiect peilot Chwarae Teg (£20,000 yn 2001-02), a chefnogaeth ariannol ar gyfer datblygu rygbi menywod Cymru (£15,500 ar gyfer cefnogaeth datblygu a £5,000 tuag at hyfforddi'r tîm cenedlaethol dan y cynllun Coach Cymru). Yn ychwanegol at hyn, ers sefydlu'r Loteri, neilltuwyd dros £4.5 miliwn i glybiau rygbi Cymru.

### Clwyd Theatr Cymru (Cyllid)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei hymrwymiad tymor hir i gyllido Clwyd Theatr Cymru? (WAQ17552)

**Jenny Randerson:** Yr wyf am i Clwyd Theatr Cymru barhau i ddatblygu yn gwmni o safle a bri cenedlaethol. Yr wyf yn cadw golwg agos ar y trafodaethau ar y theatr, ond ni wneir unrhyw benderfyniadau ar y trefniadau cyllido ar ei chyfer i'r dyfodol nes yr ystyrir yr holl opsiynau posibl. Yn y cyfamser, mae'r cynnydd o 15 y cant a gafodd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y flwyddyn hon i'w groesawu.

### Gwariant ar y Celfyddydau yng Ngogledd Cymru

**Alison Halford:** Faint mae'r Gweinidog wedi ei wario ar ddarpariaeth ar gyfer y celfyddydau ers mis Ionawr 2000 yn y Gogledd o'i gymharu â'r De? (WAQ17553)

**Jenny Randerson:** Ers mis Ionawr 2000, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi rhoi 367 o grantiau yng ngogledd Cymru, gan ddarparu cyfanswm o ychydig dros £11 miliwn, a 517 o grantiau yn ne Cymru, sef cyfanswm o £8.32 miliwn.

Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys grantiau na'r gwariant ar y cwmnïau cylch gorchwyl cenedlaethol, cwmnïau sy'n darparu gwasanaethau drwy Gymru gyfan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol yn ystod Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17293) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

## Llinell Gymorth Sgiliau Sylfaenol

**David Davies:** Faint o bobl sydd wedi ffonio'r llinell gymorth sgiliau sylfaenol ers ei sefydlu? (WAQ17302)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Sefydlwyd llinell gymorth i oedolion fel rhan o'r ymgyrch hybu sgiliau sylfaenol ar 25 Chwefror 2002. Yn ystod y pum wythnos a oedd yn diweddu ar 31 Mawrth 2002, derbyniodd y llinell gymorth 435 o alwadau.

## Cyllido Prosiectau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc

**Rosemary Butler:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ychwanegu at y cyllid ar gyfer prosiectau a sefydlwyd o dan y bartneriaeth plant a phobl ifanc? (WAQ17446) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae cyllideb y Cynulliad ar gyfer y bartneriaeth plant a phobl ifanc yn darparu ar gyfer cynnydd mewn cyllid o £1 filiwn yn 2002-03 o'i gymharu â 2001-02. Yn ogystal, yn 2002-03 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig ychwanegu £500,000 at y gyllideb hon o'r £1 filiwn a gyhoeddwyd gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau fel dyraniad hyblygrwydd diwedd flwyddyn. Crybwyllwyd cynnydd pellach o £1 filiwn i'r gwaelodlin ar gyfer 2003-04, pan gyfunir y bartneriaeth plant a phobl ifanc gyda Cychwyn Cadarn a'r strategaeth gofal plant cenedlaethol o fewn Cymorth—y gronfa cynnal plant a ieuenctid.

O ran y cynlluniau cyfredol, caiff y cyllid dan Gymorth ei ddarparu am bum mlynedd ac, wedi hynny, caiff elfen yr awdurdodau lleol ei chynnwys yn y grant cynnal refeniw.

## Colegau Chweched Dosbarth (Polisïau Caffael)

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y polisïau caffael ar gyfer colegau chweched dosbarth yng Nghymru? (WAQ17447) [R]

**Jane Davidson:** Coleg chweched dosbarth Pabyddol Dewi Sant yw'r unig goleg chweched dosbarth yng Nghymru. Mae'n gyfrifol am ei bolisïau caffael ei hun, fel ag y mae sefydliadau addysg bellach eraill yng Nghymru. Serch hynny, mae Dysgu ac Addysgu Cymru yn gweithio gyda sefydliadau a'r sector yn gyffredinol, i sicrhau y defnyddir yr arian cyhoeddus a ddyrennir i'r sector mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ac argymhellion mewn ymateb i adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 'Caffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru'. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n pwyso a mesur argymhellion y Pwyllgor Archwilio a bydd yn ymateb yn fuan.

## Athrawon Ysgolion Uwchradd sy'n Gymwys i Ddysgu yn y Gymraeg

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer yr athrawon mewn ysgolion uwchradd sy'n gymwys i ddysgu'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg? (WAQ17448) [R]

**Jane Davidson:** Mae'r ystadegau cyhoeddedig cyfredol yn ymwneud â 2000-01, a dangosant mai nifer yr athrawon mewn ysgolion uwchradd a addysgai'r Gymraeg fel iaith gyntaf, sy'n addysgu pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, neu yr ystyrir eu bod yn gallu neu'n gymwysedig i addysgu'r Gymraeg neu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond nad ydynt yn gwneud hynny, oedd 2,357. Mae nifer yr athrawon sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn uwch nag y bu yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Parhawn â'n hymrwymiad i gefnogi addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Codi Ymwybyddiaeth Myfyrwyr

**David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth myfyrwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar ôl iddynt adael ysgol? (WAQ17450)

**Jane Davidson:** Mae gan arweiniad ac addysg gyrfaoedd ran holl bwysig i'w chwarae wrth roi i bobl ifanc y sgiliau a'r wybodaeth sy'n eu galluogi i reoli eu datblygiad gyrfaol a'u dysgu gydol eu hoes. Mae'n ofynnol i bob ysgol a gyllidir ag arian cyhoeddus ddarparu rhaglen o addysg gyrfaoedd i ddisgyblion blwyddyn 9 (13 oed) i flwyddyn 11 (16 oed). Cefnogir rhaglenni o'r fath gan addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys profiad gwaith a chyfleoedd i feithrin ymwybyddiaeth ehangach o fusnes a menter. I gydnabod y ffaith y caiff penderfyniadau am gyflogaeth a dysgu pellach yn aml eu gohirio yn awr, cyflwynwyd rheoliadau yn benodol i Gymru ym mis Awst 2001; dan y rheoliadau hyn bydd gofyn i ysgolion a cholegau ddarparu rhaglen o addysg gyrfaoedd ar gyfer pob myfyriwr rhwng 16 ac 19 oed.

Mae gan bartneriaid eraill ran i'w chwarae hefyd. Mae Gyrfa Cymru yn darparu cyngor, arweiniad a gwybodaeth diduedd i bobl ifanc am eu dewisiadau o ran gyrfaoedd a dysgu. Hefyd, mae Gyrfa Cymru yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i wella ansawdd dulliau cyflwyno addysg gyrfaoedd drwy hyrwyddo cynllun gwobr ansawdd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fanteision addysg uwch, ac i ehangu'r mynediad at y cyfleoedd a gynigia. Yn 'Cyrraedd yn Uwch' yr ydym yn disgrifio ein cynigion, mewn cydweithrediad â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, i ddefnyddio'r holl dechnolegau sydd ar gael i farchnata cyfleoedd yn eang yn y sector addysg uwch, gan gynnwys gwybodaeth am lwybrau at addysg uwch a chefnogaeth ariannol. Caiff y cynigion hyn eu bwrw ymlaen yng nghyd-destun cylchoedd cynllunio cyllidebau dilynol.

Rhaid i bobl ifanc hefyd fod yn ymwybodol o'r cyfleodd sydd ar gael y tu hwnt i waith a dysgu. Mae gwybodaeth dda, ddibynadwy yn hanfodol er mwyn gwneud y dewisiadau iawn. Mae Canllaw Ar-lein, sy'n rhan bwysig o'n agenda 'Ymestyn Hawliau', yn darparu amrywiaeth eang anhygoel o wybodaeth am ddewisiadau o safbwynt dysgu a gwaith ac, yn bwysig, y byd ehangach. Dosberthir Canllaw Ar-lein yn rhad ac am ddim i bawb sy'n 15 ac 16 oed yng Nghymru, ac fe'i cefnogir gan wefan a gaiff ei diweddaru'n barhaus.

## Lefelau Cyllid Addysg

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gymhariaeth rhwng lefel y cyllid sy'n cael ei wario ar addysg yng Nghymru ac yn Lloegr? (WAQ17451)

**Jane Davidson:** Mae cymariaethau rhwng cyllidebau arfaethedig ysgolion ar gyfer 2001-02 i'w gweld ym Mhapur ELL 19-01 (T9) a gyflwynwyd i'w nodi yng nghyfarfod y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 12 Rhagfyr 2001 (http://www.wales.gov.uk/keypubassemedlearning/index.htm).

Dengys y papur bod y gwariant cyfartalog a gyllidebwyd ar gyfer pob disgybl yng Nghymru yn £3,134, yr oedd yn £3,177 yn Lloegr, ac yn Lloegr heb gyfrif Llundain yn £3,095. Yr oedd y cyfartaledd ar gyfer Cymru yn uwch na'r ffigur cyfartalog ar gyfer holl ardaloedd Lloegr, heb fod yn ardaloedd metropolitan a dwy o ardaloedd metropolitan. Dim ond Llundain ac ardaloedd metropolitan gogledd-orllewin Lloegr a Chanolbarth Lloegr, a oedd yn uwch. Gwneir y cymariaethau ar sail tebyg-at-ei-debyg. Maent yn rhoi ystyriaeth i'r cyllid uniongyrchol a welir yn fwy mynych drwy'r gronfa safonau yn Lloegr. Dangosant fod ysgolion Cymru yn cael eu cyllido ar lefelau tebyg i ysgolion Lloegr. Cynhelir dadansoddiad cymharol ar gyfer 2002-03 pan rhyddheir y ffigurau yn yr hydref.

## Grŵp Ailfodelu Gweithlu Ysgolion

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar p'un a yw'r Grŵp Ailfodelu Gweithlu Ysgolion, a sefydlwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn bwriadu cynnal prosiectau peilot ar lwyth gwaith athrawon yng Nghymru? (WAQ17468)

**Jane Davidson:** Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y prosiectau braenaru ar gyfer y gweithlu, a gynhelir gan yr Adran Addysg a Sgiliau, yn ystyried arferion gweithio yn gyffredinol. Byddant yn edrych ar wahanol ffyrdd posibl o weithio, er enghraifft, cymorth i athrawon drwy dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, neu'n pwyso a mesur y cyfraniad y gallai cynorthwywyr dysgu, staff clercaidd a staff cefnogi o fath arall ei wneud. Yng Nghymru, yr ydym eisoes wedi cymryd camau ar wahân ar faterion yn ymwneud â llwyth gwaith, gan gynnwys ein prosiect i'r leihau beichiau biwrocrataidd ar ysgolion.

Yn fy nhystiolaeth gerbron y Corff Adolygu Athrawon ysgol, dywedais nad oeddwn yn bwriadu cyflwyno cynlluniau peilot tebyg yng Nghymru, am y rheswm pennaf y byddai'n well, yn fy marn i, ystyried materion sy'n ymwneud â defnyddio staff cefnogi, yng ngoleuni argymhellion y corff adolygu ar lwythi gwaith athrawon. Byddwn yn gwneud hynny, yn ogystal ag yn myfyrio ar ganfyddiadau prosiectau a gynhaliwyd yn Lloegr. Hefyd, mae'n bosibl y bydd ysgolion cyfrwng Cymraeg yn wynebu materion na fyddai'r cynlluniau peilot yn Lloegr yn eu codi, ac mae'n bosib y bydd gofyn am ddull gweithredu ar wahân yma. Yr ydym yn ystyried sut y mae'n bosib bwrw ymlaen â hyn.

### Lleihau Tasgau Gweinyddol Athrawon

**Jonathan Morgan:** Pa gynnydd a wnaed i leihau'r tasgau gweinyddol y mae'n rhaid i athrawon eu cyflawni? (WAQ17469)

**Jane Davidson:** Yr wyf wedi ymrwymo i sefydlu mesurau a fydd yn lleihau'r tasgau y mae'n rhaid i athrawon eu cyflawni; mesurau a gaiff gefnogaeth yr holl gyfranwyr allweddol. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o agweddau.

Mae'r gwaith ar weithredu'r adroddiad ar feichiau biwrocrataidd, adroddiad a gymeradwywyd gan y Cynulliad yr haf diwethaf, yn parhau. Cynhelir adolygiad o'r cynnydd ym mis Gorffennaf. Cafodd pob ysgol yng Nghymru £1,000 yn 2001-02 i gael cefnogaeth weinyddol ychwanegol ac i helpu i ryddhau amser athrawon.

Yr wyf wedi rhoi terfyn ar brofion statudol i blant saith mlwydd oed. Cwtogwyd dosbarthiadau babanod i 30 o ddisgyblion neu lai a darperir cyllid ychwanegol gyda'r nod o leihau pob dosbarth iau i 30 neu lai erbyn mis Medi 2003. Yr wyf wedi sefydlu cyllid er mwyn i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gael ei defnyddio fwyfwy at ddibenion addysgu a gweinyddu, ac mae rhaglenni helaeth wedi'u sefydlu neu wrthi'n cael eu datblygu i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus athrawon. Mae'r gronfa ar gyfer cefnogaeth yn y dosbarth, fel rhan o'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant, ar gael i gyflogi cynorthwywyr dosbarth, neu ar gyfer cefnogaeth o fath arall yn y dosbarth. Mae'r holl fesurau hyn yn helpu i leihau'r beichiau sydd ar athrawon drwy eu galluogi i gyflawni eu gwaith yn fwy effeithiol.

Mae adroddiad yr astudiaeth o lwythi gwaith athrawon yng Nghymru a Lloegr, a wnaed gan PricewaterhouseCoopers ar ran yr Adran Addysg a Sgiliau, yn cael ei ystyried gan Gorff Adolygu Athrawon Ysgol. Pan roddais dystiolaeth ger ei fron ar 21 Chwefror 2002, pwysleisiais fod yn rhaid i'w ganfyddiadau wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r amser sylweddol y mae'n rhaid i athrawon ei dreulio ar dasgau gweinyddol. Pan gyflwynir argymhellion y corff adolygu, byddaf yn ystyried y ffordd orau o fwrw'r materion sy'n gyfrifoldeb i Lywodraeth y Cynulliad yn eu blaen.

### Gwariant ar Hysbysebu

**David Davies:** Faint sydd wedi'i wario ar hysbysebu ar faterion o fewn portffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol diwethaf? (WAQ17479)

**Jane Davidson:** Dyma faint a wariwyd ar hysbysebion, yn y wasg ac ar y cyfryngau, ar faterion o fewn portffolio’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mhob un o’r tair blynedd ariannol diwethaf:

- £28,175 yn 1999-2000 (ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 1999 a 31 Mawrth 2000)
- £92,283 yn 2000-01
- £149,930 yn 2001-02.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol yn ystod Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae’r Gweinidog wedi’u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17295) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

### Cost y Cynllun Teithio ar Fws am Ddim i Bensiynwyr

**David Davies:** Beth yw cost y cynllun teithio ar fws am ddim i bensiynwyr, fesul person? (WAQ17301)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, yr ydym wedi dyrannu i awdurdodau lleol, drwy setliad refeniw llywodraeth leol, dros £17 miliwn er mwyn eu galluogi i weithredu’r cynllun bws lleol newydd am ddim i bensiynwyr a phobl anabl. Mae’r dyraniad hwnnw yn bodloni’r gofynion cyllido disgwyliedig yn 2002-03, fel a bennwyd gan y grŵp llywio tocynnau teithio mantais. Bu i’r grŵp, a gynhwysai gynrychiolwyr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chwmnïau bysiau, adrodd i mi ym mis Mawrth 2000.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido astudiaeth, gyda chefnogaeth awdurdodau lleol a chwmnïau bysiau, a fydd yn canfod, gyda mwy o sicrwydd, gostau gwirioneddol y cynllun newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf. Disgwylir y bydd y canfyddiadau ar gael ymhen oddeutu 12 mis.

### Buddsoddi ar Isadeiledd (Valley Lines)

**Geraint Davies:** All y Gweinidog wneud datganiad ar fuddsoddi ar isadeiledd y Valley Lines? (WAQ17477)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi dyrannu dros £60 miliwn i Gonsortiwm Trafnidiaeth Gyflym Integredig De Cymru, fel rhan o’i becyn grantiau trafnidiaeth, i wella seilwaith y rheilffordd ar reilffyrdd y Cymoedd. Mae hyn yn cynnwys gwella maint gorsaf reilffordd Stryd y Frenhines, rheilffordd Cwm Rhymni, gan gynnwys gorsaf newydd yn Energlyn, ac uwchraddio rheilffordd gogledd Bro Taf. Mae ailagor lein Bro Morgannwg i deithwyr, gyda gorsafoedd newydd yn Llanilltud Fawr a’r Rhws, yn gynwysedig yn y pecyn ariannol.

Mae’r blaenraglen pum mlynedd ar gyfer grantiau trafnidiaeth yn cynnwys dyddiad dangosol o 2004-05 ar gyfer adeiladu Cam 1 Ffordd Liniaru A4048 Porth/A4233 Rhondda Fach Isaf; mae’r gwaith yn cynnwys cyfnewidfa newydd i fysiau/trenau yn y Porth.

### Lledu’r M4 (Iawndal i Drigolion)

**Jonathan Morgan:** A gaiff trigolion sy'n byw yng nghyffiniau'r ardal lle y bwriedir lledu'r M4 rhwng Coryton a Chas-bach, yn enwedig ar hyd y llwybrau gorllewinol, iawndal am unrhyw effaith negyddol ar eu heiddo? (WAQ17429)

**Sue Essex:** Bydd perchnogion yr eiddo y bydd y llwybrau gorllewinol a dwyreiniol yn effeithio arnynt, yn cael iawndal os ydynt yn gymwys dan y darpariaethau statudol. Bydd eu cymhwyster yn dibynnu ar amgylchiadau penodol pob achos.

### Cerbydau Nwyddau Trwm ar yr A449

**David Davies:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r cynnydd a fu mewn cerbydau nwyddau trwm sy'n defnyddio'r A449 dros y bum mlynedd diwethaf a beth yw'r cynnydd a ddisgwylir dros y bum mlynedd nesaf? (WAQ17432)

**Sue Essex:** O'r data sydd ar gael, bu llif y cerbydau nwyddau trwm ar yr A449 dros y pum mlynedd diwethaf yn oddeutu 4,000 y dydd, o gyfanswm llif o oddeutu 21,000 o gerbydau'r dydd. Gan ddefnyddio ffactorau cenedlaethol i ddarogan traffig ffyrdd, disgwylir cynnydd o rhwng 8 y cant (twf araf) a 12 y cant (twf cyflym) yn llif cerbydau o'r fath dros y pum mlynedd nesaf.

### Cyfleusterau Ailgylchu Awdurdodau Lleol

**Owen John Thomas:** O ystyried eich ateb i OAQ16953, pa gamau yr ydych yn eu cymryd i annog yr holl awdurdodau lleol i wella'u cyfleusterau ailgylchu ac i fonitro eu perfformiad? (WAQ17537)

**Sue Essex:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod targedau llawn her ar gyfer ailgylchu a chompostio yn y strategaeth wastraff genedlaethol i Gymru a gaiff ei lansio ar 14 Mehefin 2002. I gynorthwyo awdurdodau lleol i gyrraedd eu targedau, mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £67 miliwn iddynt dros y tair blynedd nesaf. Caiff perfformiad llywodraeth leol o safbwynt ailgylchu a chompostio ei fonitro drwy gyfrwng arolygon gwastraff trefol Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy gytundebau polisi gydag awdurdodau lleol a dangosyddion perfformiad Gwerth Gorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r olaf o'r rhain yn statudol a rhaid adrodd arnynt yn flynyddol yng nghynlluniau gwella'r awdurdodau.

### Data ar Awdurdodau Lleol

**Owen John Thomas:** Gan gyfeirio at eich ymateb i OAQ16953, pam nad oes data ar gael ar 11 o'r awdurdodau lleol, a pha gamau yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r sefyllfa? (WAQ17538)

**Sue Essex:** Mae data ar gael ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol. Cyfeiriai fy ateb i OAQ16953 at wybodaeth gan yr awdurdodau hynny yr oedd eu hadroddiadau yn dynodi bod ganddynt drefn gasglu ar hyd ymyl palmentydd. Yr 11 awdurdod lleol na chyflwynasant ddata ar gasglu ar hyd ymyl palmentydd yn 1999-2000 oedd yr awdurdodau hynny nad oeddynt, ar y pryd, yn darparu casgliadau ar hyd ymyl palmentydd. Serch hynny, dynodai'r data gan y 22 awdurdod lleol fod ganddynt system o safleoedd casglu.

Bydd ein strategaeth wastraff genedlaethol i Gymru yn annog awdurdodau lleol i sefydlu cynlluniau casglu ar hyd ymyl palmentydd a gallant ddefnyddio'r £67 miliwn a ddarperir iddynt dros y tair blynedd nesaf i gyllido cynlluniau o'r fath. Cesglir y data yn flynyddol ar hyn o bryd, drwy arolwg gwastraff trefol a gynhelir ar y cyd rhwng Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. O 2002-03 ymlaen, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu data ar wahân.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Sefyllfa Cynghorwyr Cymuned

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi arweiniad pellach ar y sefyllfa lle bo cynghorwyr cymuned yn datgan buddiant; a yw hynny o reidrwydd yn golygu na allant gymryd rhan yn y drafodaeth na phleidleisio? (WAQ17286) [W]

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Os yw'r buddiant yn dod o dan baragraff 12 o'r cod ymddygiad enghreifftiol, rhaid i gynghorydd ddatgan buddiant cyn cymryd rhan yn y drafodaeth. Hefyd, gall y cynghorydd ofyn i'r pwyllgor safonau perthnasol am hawl i bleidleisio. O dan amgylchiadau eraill, gall cynghorydd tref neu gymuned ofyn i'r pwyllgor safonau am hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a/neu bleidleisio. Caiff canllawiau drafft ar y mater hwn eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai.

**Sefyllfa Cynghorwyr Cymuned (Ymddiriedolwyr)**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi arweiniad pellach ar y sefyllfa lle bo cynghorwyr cymuned yn ymddiriedolwyr neu yn aelodau o bwyllgor gweithredol neuadd gymuned/bentref, a ydynt yn gallu trafod materion yn ymwneud â'r neuadd pan ddaw gerbron y cyngor cymuned? (WAQ17287) [W]

**Edwina Hart:** Caiff canllawiau drafft ar y mater hwn eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai. Ni fydd y canllawiau yn medru cynnwys pob amrywiaeth ar bob sefyllfa. Cyfrifoldeb yr aelod fydd penderfynu a oes ganddo neu ganddi fuddiant y mae angen ei ddatgan o dan y cod ymddygiad. Gall y swyddog monitro gynnig cyngor ar hyn. Os yw'r aelod o'r farn y dylai ef neu hi ddatgan buddiant, gall yr aelod wneud cais i'r pwyllgor safonau am hawl i gymryd rhan yn y drafodaeth a/neu bleidleisio. Os yw'r mater yn un a fydd yn berthnasol i fwy nag un cyfarfod, gall y pwyllgor safonau roi hawl am gyfnod o amser, a gellir adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

**Cynghorwyr Cymuned (Datgan Buddiannau)**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi arweiniad pellach ar y materion y mae angen i gynghorwyr cymuned ddatgan buddiant? (WAQ17288) [W]

**Edwina Hart:** Caiff canllawiau drafft ar y mater hwn eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori ddiwedd mis Mai.

**Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol yn ystod Ymweliadau Tramor**

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17290) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

**Cynllun Prynu Cartref (Dyraniadau)**

**Janet Ryder:** Faint sydd wedi'i ddefnyddio gan bob awdurdod lleol o'r arian a ddyrannwyd ar eu cyfer o dan y cynllun prynu cartref? (WAQ17473)

**Edwina Hart:** Mae manylion y gwariant yn erbyn y dyraniadau ar gyfer y cynllun prynu cartref mewn ardaloedd gwledig yn 2001-02 i'w gweld yn y tabl isod. Mewn rhai achosion, yr oedd y gwariant gwirioneddol yn fwy na'r dyraniad gwreiddiol. Y rheswm am hyn yw y rhoddwyd yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol ail-ddyrannu adnoddau o lithriant mewn mannau eraill yn eu rhaglenni.

| | 2001-02 | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wedi'i ddyrannu fesul awdurdod | ychwanegiad y Cynulliad | cyfanswm cynllun prynu cartref yng nghefn gwlad | gwariant diwedd flwyddyn |
| Ceredigion | £200,000 | £200,000 | £400,000 | £654,000 |
| Conwy | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £231,000 |
| Sir Ddinbych | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £117,000 |
| Sir y Fflint | £130,000 | £130,000 | £260,000 | £217,000 |
| Gwynedd | £320,000 | £320,000 | £640,000 | £787,000 |
| Ynys Môn | £200,000 | £200,000 | £400,000 | £452,000 |
| Mynwy | £20,000 | £20,000 | £40,000 | £41,000 |
| Sir Benfro | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £236,000 |
| Powys | | | | £82,000 |
| **Cyfanswm** | **£1,230,000** | **£1,230,000** | **£2,460,000** | **£2,817,000** |

### Cynllun Prynu Cartref (Arian)

**Janet Ryder:** Faint o arian sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer pob awdurdod lleol o dan y cynllun prynu cartref? (WAQ17474)

**Edwina Hart:** Mae gan awdurdodau lleol reolaeth effeithiol dros ddyraniad y grant tai cymdeithasol sydd ar gael i'w wario o fewn eu ffiniau. Ar gyfer 2001-02, rhyddheais adnoddau ychwanegol o hyd at £1.5 miliwn i gyfateb i'r symiau yr oedd awdurdodau lleol wedi'u dyrannu i'r cynllun prynu cartref mewn ardaloedd gwledig. Yr wyf wedi rhyddhau £1.5 miliwn pellach i'w ychwanegu at ddyraniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer y cynllun prynu cartref yng nghefn gwlad yn 2002-03. Mae'r dyraniadau canlyniadol i'w gweld yn y tabl canlynol.

| | 2001-02 | | | 2002-03 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wedi'i ddyrannu fesul awdurdod | ychwanegiad y Cynulliad | cyfanswm cynllun prynu cartref yng nghefn gwlad | wedi'i ddyrannu fesul awdurdod | ychwanegiad y Cynulliad | cyfanswm cynllun prynu cartref yng nghefn gwlad |
| Ceredigion | £200,000 | £200,000 | £400,000 | £375,000 | £268,000 | £643,000 |
| Conwy | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £110,000 | £79,000 | £189,000 |
| Sir Ddinbych | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £120,000 | £86,000 | £206,000 |
| Sir y Fflint | £130,000 | £130,000 | £260,000 | £50,000 | £36,000 | £86,000 |
| Gwynedd | £320,000 | £320,000 | £640,000 | £650,000 | £465,000 | £1,115,000 |
| Ynys Môn | £200,000 | £200,000 | £400,000 | £400,000 | £286,000 | £686,000 |
| Mynwy | £20,000 | £20,000 | £40,000 | £70,000 | £50,000 | £120,000 |
| Sir Benfro | £120,000 | £120,000 | £240,000 | £120,000 | £86,000 | £206,000 |
| Powys | | | | £200,000 | £143,000 | £343,000 |
| **Cyfansymiau** | **£1,230,000** | **£1,230,000** | **£2,460,000** | **£2,095,000** | **£1,500,000** | **£3,594,000** |

### Cynllun Prynu Cartref (Cyhoeddi Manylion)

**Janet Ryder:** Sut y mae pob awdurdod lleol yn cyhoeddi manylion ei gynllun prynu cartref? (WAQ17475)

**Edwina Hart:** Mater i awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid iddynt yw gwneud trefniadau addas i gyhoeddi manylion y cynlluniau prynu cartref sy'n gweithredu yn eu hardaloedd. I gynorthwyo gyda hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn paratoi pamffled esboniadol ar sut i redeg y cynllun. Disgwylir y bydd y pamffled ar gael yn yr haf a chaiff ei gyflwyno i awdurdodau lleol a'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig priodol er mwyn iddynt hwy eu dosbarthu fel sy'n briodol yn eu tyb hwy.

### Diffiniad 'Masnachol Gyfrinachol'

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog roi diffiniad o 'masnachol gyfrinachol' gan roi manylion y broses ar gyfer pennu bod dogfennau/gwybodaeth/ffeiliau yn rhai 'masnachol gyfrinachol'? (WAQ17542)

**Edwina Hart:** Ni cheir diffiniad absoliwt o'r term 'masnachol gyfrinachol'. Serch hynny, yn gyffredinol, bydd yr eithriadau perthnasol a gynhwysir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000—deddf sy'n cynnwys gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol, gwybodaeth sy'n gyfystyr â chyfrinach fasnachol, a gwybodaeth a fyddai, o'i datgelu, yn debygol o beryglu buddiannau masnachol unrhyw berson dan sylw, gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n dal y wybodaeth honno—yn cael eu defnyddio fel y sylfaen ar gyfer dosbarthu gwybodaeth yn 'fasnachol gyfrinachol'.

### Ffioedd Tacsi ar gyfer Swyddogion

**Jonathan Morgan:** Yn ychwanegol at WAQ17241, beth oedd cyfanswm yr arian a wariwyd yn ystod 1999-2000 ar ad-dalu swyddogion oedd wedi talu ffioedd tacsi i deithio rhwng parc Cathays a bae Caerdydd a *vice versa*? (WAQ17543)

**Edwina Hart:** Ni all Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu dadansoddiad o gostau ffioedd tacsis a ad-dalwyd i'r swyddogion am deithio rhwng parc Cathays a bae Caerdydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol yn ystod Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17296)
***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

### Gostwng Amseroedd Aros i'r Rhai sy'n Gaeth i Heroin gael Triniaeth

**Peter Black:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ostwng yr amseroedd y mae'r rhai sy'n gaeth i heroin yn eu haros i gael triniaeth yng Nghymru? (WAQ17453)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Un o nodau allweddol y gronfa trin cyffuriau ac alcohol yw sicrhau mwy o fynediad at driniaeth a gofal ar gyfer y rheini sy'n camddefnyddio sylweddau. Mae'r Cynulliad hefyd yn darparu cefnogaeth cymorth grant i fudiadau gwirfoddol sy'n darparu cyfleusterau preswyl sy'n cynnig gwasanaethau trin ac adsefydlu tymor byr i'r rheini sy'n camddefnyddio cyffuriau ac alcohol. Y flwyddyn hon, bydd £3 miliwn yn cael ei wario dan y cynlluniau hyn. Yr wyf hefyd wedi gofyn i'r swyddogion gynnal adolygiad o'r modd y comisiynir ac y darperir gwasanaethau trin ac adsefydlu. Mae'r cam cyntaf yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

### Adolygiad o Bolisi Camddefnyddio Sylweddau

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adolygiad o bolisi camddefnyddio sylweddau a'r camau y mae'n eu cymryd ar hyn o bryd i'w roi ar waith? (WAQ17454)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn adolygu'r polisi camddefnyddio sylweddau yn barhaus yng ngoleuni gweithredu strategaeth hirdymor Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru: Gweithredu mewn Partneriaeth', strategaeth a lansiwyd ym mis Mai 2000. Cyhoeddwyd targedau perfformiad allweddol yn ddiweddar a bydd y targedau hyn yn ein galluogi i fesur y cynnydd o

ran mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ym mhob rhan o'r strategaeth. Yr wyf hefyd wedi cychwyn adolygiad o'r modd y comisiynir ac y darperir gwasanaethau trin ac adsefydlu.

**Recriwtio Staff Meddygol o Dramor**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch goblygiadau recriwtio staff meddygol o dramor? (WAQ17455)

**Jane Hutt:** Mae pob ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn gwneud pob ymdrech i recriwtio drwy'r llwybrau traddodiadol, ond er gwaethaf ein llwyddiant yn denu staff cymwysedig i'r GIG yng Nghymru, yr ydym yn methu â chanfod digon o nifer yn lleol i gynnal y lefelau staffio a chefnogi datblygiadau newydd. Mesur tymor byr i'r tymor canolig yw cyflogi staff o dramor, mesur y mae'n rhaid i'r ymddiriedolaethau ei fabwysiadu tra bod nifer y lleoedd hyfforddi yn cael eu cynyddu.

Mae gan y GIG hanes hir o groesawu staff o dramor i feithrin profiad drwy weithio yn ein hysbytai a chyfrannu at gyflwyno gwasanaethau clinigol o safon, yn enwedig mewn meysydd lle mae'n anodd recriwtio ar eu cyfer.

**Staphylococcus Aureus sy'n gwrthsefyll Methicillin**

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar y ffordd y mae ysbytai yng Nghymru yn mynd i'r afael â staphylococcus aureus sy'n gwrthsefyll methicillin? (WAQ17456)

**Jane Hutt:** Dan y cynllun GIG, rhoddir blaenoriaeth uchel i lanweithdra mewn ysbytai er mwyn gwrthsefyll heintiau a geir mewn ysbytai, gan gynnwys staphylococcus aureus sy'n gwrthsefyll methicillin. Un o gyfrifoldebau allweddol rheolwyr yw sicrhau bod mesurau rheoli glanweithdra a heintiau yn cael eu cynnwys yn hyfforddiant staff a'r trefniadau gweithredu.

Mae pwyllgor y Prif Swyddog Meddygol dros reoli afiechydon heintus wedi dynodi heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn flaenoriaeth, ac y mae'n sefydlu cynllun i leihau achosion o heintiau o'r fath, gan gynnwys staphylococcus aureus sy'n gwrthsefyll methicillin, ym mhob sefydliad gofal iechyd. Dyma rai o'r cynlluniau hyn:

- safonau Cymru-gyfan ar gyfer glendid ysbytai, ac archwiliad o'r safonau cyfredol,
- llawlyfr rheoli heintiau,
- pamffled ar staphylococcus aureus sy'n gwrthsefyll methicillin i'w roi i gleifion a pherthnasau.

Caiff arweinyddion eu penodi ac, ymysg dyletswyddau eraill, byddant yn sicrhau y ceir gwelliannau ansawdd parhaus ac yn goruchwylio safonau glendid wardiau ac yn atal heintiau a geir mewn ysbytai. Sefydlwyd grŵp holl-gyfleusterau i roi sylw i'r mater o archwiliad amgylcheddol ac i'r rôl newydd ar gyfer uwch staff nyrsio wardiau, bydd hyn yn cynnwys adolygu trefniadau glanhau.

**Cyllido Uned Cydraddoldeb y GIG**

**David Davies:** Beth yw cyfanswm yr arian a wariwyd ar gyllido uned cydraddoldeb y GIG ers sefydlu'r Cynulliad? (WAQ17458)

**Jane Hutt:** Mae uned cydraddoldeb y GIG yn cael cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a thrwy danysgrifiad blynyddol gan bob un o'r ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd. O 1999-2000 i'r flwyddyn gyfredol, mae'r uned wedi cael cyfanswm o £411,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a £218,000 gan ymddiriedolaethau'r GIG ac awdurdodau iechyd yng Nghymru.

**Sgrinio Golwg pob Plentyn Pedair i Bump Oed**

**Lorraine Barrett:** A oes cynlluniau gan y Gweinidog i gyflwyno cynllun i sgrinio golwg pob plentyn pedair i bump oed yng Nghymru? (WAQ17460)

**Jane Hutt:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gyflwyno cynllun i sgrinio golwg pob plentyn pedair i bump oed yng Nghymru. Bydd y swyddogion a chynrychiolwyr y proffesiwn yn pwyso a mesur hyn yn y pwyllgor optometreg Cymreig nesaf. Edrychaf ymlaen at gael eu cyngor ar y mater hwn yn fuan.

Yr oedd yn bleser gennyf lansio archwiliad iechyd llygaid Cymru ar 1 Mai. Er nad yw'r cynllun hwn wedi'i anelu'n benodol at blant, bydd o fudd i'r grwpiau hynny y credir eu bod mewn mwy o berygl o gael afiechyd llygaid a all fod yn fygythiad i'r golwg. Bydd datblygiadau pellach yng nghynllun gofal llygaid Cymru yr un mor berthnasol i blant. Bydd y rhain yn cynnwys lansio rhaglen sgrinio retinopathi ar gyfer cleifion y clefyd siwgr a sefydlu gwasanaeth cymhorthion i bobl â nam ar eu golwg i Gymru.

Mae plant dan 16 mlwydd oed, a hefyd y rheini rhwng 16 a 18 mlwydd oed, sydd mewn addysg amser llawn, yn gallu manteisio ar brofion llygaid GIG, drwy gyfrwng y gwasanaeth offthalmia cyffredinol, am ddim. Mae'r arweiniad a gyflwynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Chwefror 2002 yn argymell mai'r amser lleiaf rhwng profion ar gyfer y rheini sydd dan 16 oed, yn absenoldeb unrhyw anomaledd yng ngolwg y ddau lygad, yw blwyddyn.

## Dolenni Anwythol

**Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer y dolenni anwythol sydd ar gael mewn ysbytai a meddygfeydd yng Nghymru? (WAQ17461)

**Jane Hutt:** Darparwyd cyfleusterau ar gyfer pobl anabl mewn adeiladau newydd ym mannau cyhoeddus adeiladau gofal iechyd yng Nghymru, mewn rheoliadau adeiladu, safonau statudol a safonau nodiadau adeiladu ysbytai ers nifer o flynyddoedd. Mae dolenni anwythol wedi ffurfio rhan o'r cydsyniad hwnnw.

Yn fwy diweddar, mae Deddf Gwahaniaethau ar sail Anabledd 1995 yn galw am i ddarparwyr gwasanaethau gyflenwi gwasanaethau a chymhorthion ategol lle byddai hyn yn galluogi, neu'n ei gwneud yn haws, i berson byddar neu berson â nam ar ei glyw gael mynediad at wasanaeth. Dosberthir dolen anwythol fel cymorth ategol.

Nid yw'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau wneud newidiadau sy'n gofyn am addasiadau saernïol i'w hadeiladau hyd at fis Hydref 2004. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd yn rhaid i adeiladau gofal iechyd presennol a newydd gael dolenni anwythol yn y mannau cyhoeddus, pe byddai hyn yn galluogi, neu'n ei gwneud yn haws i berson byddar neu berson â nam ar ei glyw gael mynediad at wasanaeth.

Ar hyn o bryd, cesglir gwybodaeth ar gydsyniad statudol cyffredinol adeiladau, ond nid ar ofynion penodol Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995; rhan yn unig o'r ddeddf hon yw darparu dolenni anwythol. Nid oes modd, felly, rhoi ateb diffiniol ar hyn o bryd ar faint o ddolenni anwythol a geir mewn ysbytai.

Serch hynny, cynhelir arolygon o eiddo gan archwilio'r cydsyniad yn adeiladau meddygon teulu ac mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 yn rhan annatod o'r arolygon hyn. Ceir cwestiwn penodol yn yr archwiliad sy'n ymwneud â darparu dolenni anwythol mewn derbynfeydd, ac mae'n bosib y bydd modd cael yr wybodaeth hon ar ôl cwblhau'r arolwg. Nes bydd yr arolwg wedi'i gwblhau, ni ellir canfod lefel y ddarpariaeth ym meddygfeydd meddygon teulu.

## Troseddu Ymhlith Ieuenctid yng Nghymru

**Rhodri Glyn Thomas:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â throseddu ymhlith ieuenctid yng Nghymru? (WAQ17472)

**Jane Hutt:** Timau troseddau ieuenctid aml-asiantaethol yw'r prif gyfrwng ar gyfer mynd i'r afael â throseddu ymhlith ieuenctid yn awr. Mae gofyn i bob tîm troseddau ieuenctid, ceir 17 ohonynt yng Nghymru, lunio a gweithredu cynllun blynyddol. Un o'r mesurau perfformiad allweddol ar gyfer pob tîm troseddau ieuenctid yw'r angen i leihau troseddu ymysg pobl ifanc. Er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith pwysig hwn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth grant (£133,000 y flwyddyn ar hyn o bryd) i NACRO Cymru, i ddarparu cyngor a chefnogaeth i dimau troseddau ieuenctid yng Nghymru.

Eleni, sefydlwyd grŵp strategaeth troseddau ieuenctid Cymru-gyfan i bwyso a mesur sut i integreiddio ymhellach waith Llywodraeth y Cynulliad, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a'r holl asiantaethau partner lleol yn y maes gwaith pwysig hwn. Yr wyf yn cadeirio'r grŵp hwn ar y cyd gyda'r Arglwydd Warner, cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol.

### Arian ar gyfer Epilepsi Cymru

**Peter Rogers:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau arian parhaus ar gyfer Epilepsi Cymru? (WAQ17478)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi nodau ac amcanion Epilepsi Cymru. Yr wyf yn cydnabod y rhan bwysig y mae gan y sector gwirfoddol, sy'n cynnwys Epilepsi Cymru, i'w chwarae i ddarparu gwasanaethau cefnogi ac yr ydym yn annog cyfleoedd newydd er mwyn cynnwys y corff hwn yn y broses o gyflwyno'r gwasanaethau hyn. Cyfrifoldeb yr awdurdodau iechyd o hyd yw cyllido gwasanaethau yn lleol. Ni all llif cyllid rheolaidd ar gyfer unrhyw fudiadau gwirfoddol ond dod o gyrff comisiynu a rhaid darbwyllo'r rhain y dylid prynu'r gwasanaeth a ddarperir ar gyfer eu hardaloedd. Ni allwn neilltuo unrhyw un mudiad i gael triniaeth eithriadol.

Yr wyf yn gwbl ymwybodol o'r anawsterau y bydd Epilepsi Cymru yn eu hwynebu pan fydd y cyllid gan Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol yn dod i ben. Pan wneir pob cais am gyllid tymor byr, hysbysir yr ymgeisydd o'r angen i lunio strategaeth ar gyfer parhau â'r gwasanaethau pan ddaw arian y loteri i ben.

Ni allwn gynnig cyllid craidd. Yr wyf wedi gofyn i'r swyddogion gadw mewn cysylltiad ag Epilepsi Cymru er mwyn gwneud yn siwr ein bod, bob amser, yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfredol. Mae cyfarfod rhwng y swyddogion a phwyllgor rheoli Epilepsi Cymru wedi'i drefnu ar gyfer diwedd Mai.

### Gwariant ar Hysbysebu

**David Davies:** Faint sydd wedi'i wario ar hysbysebu ar faterion o fewn portffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob un o'r tair blwyddyn ariannol diwethaf? (WAQ17482)

**Jane Hutt:** Dyma faint a wariwyd ar hysbysebion, yn y wasg ac ar y cyfryngau, ar faterion o fewn portffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob un o'r tair blynedd ariannol diwethaf:

- £281,116 yn 1999-2000 (ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 1999 a 31 Mawrth 2000)
- £268,583 yn 2000-01
- £665,452 yn 2001-02.

### Deintyddion y GIG yn y Fenni

**Michael German:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod gwasanaethau deintyddol y GIG ar gael i'r sawl sy'n byw yn ardal y Fenni? (WAQ17514)

**Jane Hutt:** Yr wyf yn ymwybodol fod rhai cleifion yn ardal y Fenni yn ei chael yn anodd i ddod o hyd i ddeintydd sy'n barod i wneud triniaeth dan y GIG. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaeth deintyddol safonol y GIG ar gael i'r rheini sy'n dymuno ei ddefnyddio, pa le bynnag y maent yn byw, a byddaf yn dal i weithio gydag awdurdodau iechyd i wella'r ddarpariaeth mewn

ardaloedd o'r fath drwy Gynllun deintyddol Cymru. Lansiwyd y cynllun hwn i ddechrau ym 1995, ac fe'i bwriedir i ddenu deintyddion newydd i rannau o Gymru lle mae'r galw mwyaf amdanynt. Mae wedi galluogi awdurdodau iechyd Cymru i gynnig lefelau cyllid digyffelyb i ddeintyddion sy'n barod i wneud ymrwymiad parhaus i'r GIG, a gwelwyd ei fod yn llwyddiannus iawn.

Yn fy nghyhoeddiad ysgrifenedig gerbron Aelodau'r Cynulliad ar 19 Mawrth, yr oedd yn bleser gennyf allu lansio cam 3 y cynllun. Mae hyn yn cynnwys cynnydd yn y grant sylfaenol sydd ar gael i £40,000, grant newydd i sefydlu practisiau hyfforddiant galwedigaethol newydd, a thaliadau i ddeintyddion sy'n dychwelyd i'r proffesiwn ar ôl absenoldeb o ddwy flynedd neu ragor.

Er mwyn cynorthwyo Awdurdod Iechyd Gwent ymhellach i fodloni'r galw am driniaeth ddeintyddol y GIG, yr wyf wedi rhyddhau £150,000 yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf i brynu sesiynau mynediad ychwanegol gan ddeintyddion yn y Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol. Bydd y sesiynau hyn yn gwella'r mynediad at driniaeth ddeintyddol y GIG i gleifion na allant gofrestru am ofal parhaus. Yn unol â'r egwyddorion a geir yn y ddogfen bolisi 'Gwella Iechyd yng Nghymru', caiff darparu'r sesiynau mynediad ychwanegol hyn gan ymarferwyr ei hybu mewn partneriaeth ag NHS Uniongyrchol.

Credaf fod y cynlluniau hyn yn dangos cefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymarferwyr deintyddol cyffredinol yn y GIG. Byddaf yn parhau i weithio gydag awdurdodau iechyd a'r proffesiwn deintyddol i sicrhau bod triniaethau deintyddol safonol y GIG ar gael i'r dyfodol.

**Deintyddion y GIG yn ardal y Fenni**

**Michael German:** A yw'n bosibl i gleifion y GIG yn y Fenni, nad ydynt wedi eu cofrestru ar hyn o bryd â deintydd lleol, gofrestru i dderbyn triniaeth ddeintyddol y GIG yn ardal y Fenni? (WAQ17515)

**Michael German:** Faint o ddeintyddion yn ardal y Fenni sy'n derbyn cleifion y GIG? (WAQ17516)

**Jane Hutt:** Rhoddir y rhan fwyaf o driniaethau deintyddol y GIG i gleifion drwy'r Gwasanaeth Deintyddol Cyffredinol ac Awdurdod Iechyd Gwent sy'n gyfrifol, dan adran 35 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel y'i diwygiwyd), am ddarparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn ardal y Fenni.

Mae'r awdurdod iechyd wedi cadarnhau y ceir dau bractis ym Mrynmawr, oddeutu wyth milltir o'r Fenni, ac mae'r ddau yn derbyn cleifion o bob categori ar hyn o bryd ar gyfer yr amrywiaeth llawn o driniaethau deintyddol a geir dan y GIG.

Yr wyf yn ymwybodol fod rhai cleifion yn ardal y Fenni yn cael problemau i ddod o hyd i ddeintydd teulu sy'n barod i wneud triniaeth y GIG yn agos i gartref. Byddaf yn parhau i gynorthwyo'r awdurdod iechyd i sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael, drwy Gynllun deintyddol Cymru, cynllun a fu'n llwyddiannus iawn yn denu deintyddion newydd i'r rhannau hynny o Gymru lle ceir y mwyaf o alw amdanynt.

**Gwelyau Gofal Critigol**

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid blynyddol yn ystod y tair blynedd diwethaf yn nifer y gwelyau gofal critigol ar gyfer Cymru gyfan ac yn ardaloedd yr awdurdodau iechyd unigol? (WAQ17517)

**Jane Hutt:** Nid oes data dibynadwy, ar y dosbarthiad cyfredol o welyau gofal critigol, ond ar gael ar gyfer y chwarter sy'n diweddu 31 Rhagfyr 2001. Dengys y tabl isod nifer y gwelyau, fel a adroddwyd fesul ymddiriedolaeth GIG, fesul math ac awdurdod iechyd.

**Nifer cyfartalog y gwelyau sydd ar gael (llawn neu wag)** y chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2001

| **Awdurdod Iechyd (a)** | **Uned dibyniaeth sylweddol** | **Gofal dwys** | **Uned Therapi Dwys Pediatrig** | **Uned Gofal Arbennig i Fabanod** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Taf | 24 | 42 | 13 | 66 | 145 |
| Gwent | 10 | 8 | - | 32 | 50 |
| Dyfed Powys | 6 | 17 | - | 15 | 38 |
| Morgannwg | 25 | 47 | - | 46 | 118 |
| Gogledd Cymru | 6 | 21 | - | 48 | 75 |
| **Cymru** | **71** | **135** | **13** | **207** | **426** |

(a) Neilltuir ymddiriedolaethau'r GIG i'r ardaloedd awdurdod lleol lle y'u lleolir yn ddaearyddol.

### Cyfeiriadau Brys oherwydd Canser (Amseroedd Aros)

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid blynyddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf yn nifer y cleifion oedd yn gallu gweld ymgynghorydd o fewn pythefnos ar ôl cael eu cyfeirio ar frys oherwydd canser? (WAQ17518)

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid blynyddol ar gyfer y tair blynedd diwethaf yn y nifer a gafodd eu cyfeirio ar frys oherwydd canser ar gyfer Cymru gyfan ac yn ardaloedd yr awdurdodau iechyd unigol? (WAQ17525)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn ganolog ar hyn o bryd. Serch hynny, dechreuodd y gwaith o fonitro hyn yn rhannol yn ganolog ym mis Ionawr 2002. Mae hyn yn seiliedig ar bedwar math o ganser penodol, gan gynnwys canser y fron—mathau o ganser y gofynnwyd i bob ymddiriedolaeth eu henwebu er mwyn cyrraedd targed y flwyddyn ddiwethaf, sef bodloni safon gofal 'atgyfeiriad brys 10-diwrnod' y grŵp cydlynu gwasanaethau canser. Byddwn yn adrodd ar hyn yn fuan.

### Nyrs-ymarferwyr mewn Wardiau Damweiniau a Brys

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl y nyrs-ymarferwyr mewn wardiau damweiniau a brys yng Nghymru? (WAQ17519)

**Jane Hutt:** Mae rôl y nyrs-ymarferwyr mewn wardiau damweiniau a brys ledled Cymru yn amrywio yn unol â'r math o uned, cymysgedd anghenion y cleifion ar y pryd, a chymysgedd sgiliau'r tîm aml-ddisgyblaethol sy'n staffio'r uned.

Nodweddir eu rolau gan fwy o annibyniaeth, gwneud rhagor o benderfyniadau a sgiliau estynedig. Ymysg yr esiamplau y mae'r gallu i gyfeirio cleifion yn uniongyrchol am brofion radiolegol neu batholegol heb ofyn cymorth gan feddyg, rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn dan gyfarwyddebau grwpiau cleifion, pwytho, rhoi plastr Paris, cymryd hanes cleifion, gwneud electrocardiogramau, cychwyn trwythiadau IV a rhyddhau cleifion.

### Gwelyau Gofal Aciwt a Chanolig

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid blynyddol yn ystod y tair blynedd diwethaf yn nifer y gwelyau gofal aciwt ar gyfer Cymru gyfan ac yn ardaloedd yr awdurdodau iechyd unigol? (WAQ17520)

**Lynne Neagle:** Beth oedd y newid blynyddol yn ystod y tair blynedd diwethaf yn nifer y gwelyau gofal canolig ar gyfer Cymru gyfan ac yn ardaloedd yr awdurdodau iechyd unigol? (WAQ17521)

**Jane Hutt:** Cesglir nifer y gwelyau GIG yn ôl arbenigedd. Dengys y tabl isod nifer y gwelyau, fel y'u hadroddwyd fesul ymddiriedolaeth y GIG, fesul ardal awdurdod iechyd, fesul grŵp arbenigol ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf.

**Nifer gyfartalog y gwelyau sydd ar gael yn ddyddiol (gwag a llawn)**

**Grŵp Arbenigol**

| **Awdurdod Iechyd** (a) | **Blwyddyn** | **Aciwt a geriatreg** (b) | **Mamolaeth** | **Iechyd Meddwl** | **Pob arbenigedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bro Taf | 1998-99 | 3,067 | 162 | 832 | 4,061 |
| | 1999-00 | 3,023 | 156 | 752 | 3,930 |
| | 2000-01 | 3,005 | 152 | 727 | 3,885 |
| Gwent | 1998-99 | 1,768 | 119 | 458 | 2,345 |
| | 1999-00 | 1,815 | 117 | 440 | 2,372 |
| | 2000-01 | 1,845 | 115 | 432 | 2,392 |
| Dyfed Powys | 1998-99 | 1,682 | 116 | 467 | 2,265 |
| | 1999-00 | 1,636 | 107 | 382 | 2,124 |
| | 2000-01 | 1,588 | 93 | 371 | 2,053 |
| Morgannwg | 1998-99 | 2,104 | 110 | 829 | 3,043 |
| | 1999-00 | 2,128 | 111 | 809 | 3,047 |
| | 2000-01 | 2,139 | 111 | 789 | 3,039 |
| Gogledd Cymru | 1998-99 | 2,502 | 147 | 535 | 3,184 |
| | 1999-00 | 2,569 | 137 | 545 | 3,251 |
| | 2000-01 | 2,543 | 131 | 522 | 3,196 |
| **Cymru** | **1998-99** | **11,122** | **654** | **3,121** | **14,897** |
| | **1999-00** | **11,170** | **627** | **2,927** | **14,724** |
| | **2000-01** | **11,120** | **602** | **2,842** | **14,564** |

(a) Neilltuir ymddiriedolaethau'r GIG i'r ardaloedd awdurdod lleol lle y'u lleolir yn ddaearyddol.

(b) cynhwyswyd y gwelyau ym maes meddygaeth geriatreg oherwydd, yn y tair blynedd diwethaf, ail-ddosbarthwyd cyfran ohonynt fel gwelyau aciwt ac, felly, byddai eu gadael allan yn dangos cynnydd camarweiniol yn nifer y gwelyau aciwt.

## Therapi Thrombolytig

**Lynne Neagle:** Pa ganran o gleifion sy'n derbyn therapi thrombolytig, pan fo'n briodol, o fewn ugain munud i gyrraedd adran ddamweiniau a brys yng Nghymru? (WAQ17522)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd yr wybodaeth am yr amser cyfartalog rhwng cyrraedd yr ysbyty a gweinyddu therapi thrombolytig fel dangosydd 3 yn 'Dangosyddion Clinigol ar gyfer y GIG, Mehefin 2001', ac mae copi o'r ddogfen ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad. Mae hefyd i'w gweld ar fewnrwyd a gwefan y Cynulliad.

## Cydweithgor Gofal Sylfaenol

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw wersi y gall Llywodraeth y Cynulliad eu dysgu o gydweithgor gofal sylfaenol Asiantaeth Foderneiddio y GIG? (WAQ17523)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol o lwyddiant y cydweithgorau gofal sylfaenol yn Lloegr yn helpu practisiau meddygon teulu i wella ansawdd a hygyrchedd eu gwasanaethau i'w cleifion. Yr ydym wrthi'n edrych ar sut y gellir mabwysiadu a datblygu'r dull gweithredu llwyddiannus hwn yng Nghymru yn unol â gweithredu'r strategaeth gofal sylfaenol.

### Cartref Gofal Hazelcroft (Staff)

**Jonathan Morgan:** Yn dilyn ei hateb i WAQ17246, sut y bydd saff oedd yn gweithio yng nghartref gofal Hazelcroft yn cael eu hysbysu y gallant ddarparu tystiolaeth i'w thîm archwilio? (WAQ17526)

**Jane Hutt:** Bydd y tîm archwilio yn ysgrifennu at gyn-staff Hazelcroft. Caiff y staff gyfle i gysylltu â hwy un ai pan fydd y tîm yn y cartref neu oddi ar safle'r cartref, os dymunant. Bydd y tîm hefyd ar gael i staff cartrefi eraill yr ymwelir â hwy, a rhoddir hysbysiad yn y cartrefi hyn. Bydd staff y cartrefi hynny hefyd yn cael cyfle i gysylltu â'r tîm oddi ar safle'r cartref os dymunant. Mae copi o frîff ac amserlen yr archwiliad ar gael i unrhyw un sy'n gofyn amdanynt.

### Cartref Gofal Hazelcroft (Cyn-breswylwyr)

**Jonathan Morgan:** Yn dilyn ei hateb i WAQ17245, sut y bydd cyn-breswylwyr cartref gofal Hazelcroft yn cael eu hysbysu y gallant ddarparu tystiolaeth i'w thîm archwilio? (WAQ17527)

**Jane Hutt:** Bydd y tîm archwilio yn ysgrifennu at holl breswylwyr y cartrefi yr ymwelir â hwy a bydd hefyd yn rhoi hysbysiad ym mhob cartref. Byddant hefyd yn ysgrifennu at holl gyn-breswylwyr Hazelcroft, i weld a hoffent gysylltu ag aelod o'r tîm.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

### Mynychu Digwyddiadau a Chyfarfodydd Gwleidyddol tra ar Ymweliadau Tramor

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17294) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Nick Bourne:** Pa ddigwyddiadau neu gyfarfodydd gwleidyddol y mae'r Gweinidog wedi'u mynychu yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor bob mis rhwng Ionawr a Mawrth 2002? (WAQ17297) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Prif Weinidog ar ran y Cabinet.***

**Prif Weinidog Cymru:** Ni fynychodd Gweinidogion y Cabinet unrhyw ddigwyddiadau na chyfarfodydd gwleidyddol yn ystod ymweliadau swyddogol y Llywodraeth dramor.

## Profion ar gyfer y Diciâu mewn Gwartheg

**Alison Halford:** Pryd y cynhaliwyd profion ar gyfer y diciâu mewn gwartheg yng Nghymru ddiwethaf mewn ardaloedd lle mae'r perygl yn isel ac ardaloedd lle mae'r perygl yn uchel? (WAQ17530)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones):** Rheolir y profion ar gyfer y diciâu mewn gwartheg gan Gyfarwyddeb CE 64/432/EEC, cyfarwyddeb sy'n gosod y gofynion sylfaenol. Dylanwadir ar ba mor aml y cynhelir profion gan ganran gyfartalog y buchesi y cadarnheir eu bod yn dioddef o'r diciâu fesul plwyf, fel a ganlyn:

- bob pedair blynedd os yw canran gyfartalog y buchesi y cadarnhawyd eu bod yn dioddef o'r diciâu dros y ddau gyfnod goruchwylio diwethaf (wyth mlynedd) yn is na 0.1 y cant;
- bob tair blynedd os yw rhwng 0.1 a 0.25 y cant yn ystod y chwe blynedd diwethaf;
- bob dwy flynedd os yw rhwng 0.2 ac 1 y cant yn ystod y pedair blynedd diwethaf;
- bob blwyddyn os yw dros 1 y cant yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

Gellir cynnal rhagor o brofion mewn ymateb i gynnydd sydyn yn nifer y buchesi a chwelir. Serch hynny, ni all unrhyw system ddarogan ymhle y cyfyd heintiau newydd ac nid yw monitro'r holl fuchesi yn aml ac ar hap yn ymarferol bosibl.

## Symud Gwartheg sydd heb eu profi am y Diciâu

**Alison Halford:** A yw gwartheg sydd heb gael eu profi am y diciâu yn cael eu symud i ffermydd yng Nghymru sy'n ceisio dod i drefn ar ôl clwy'r traed a'r genau? (WAQ17531)

**Carwyn Jones:** Penderfyniad masnachol yw'r gwartheg a brynir fel rhan o raglen ail-stocio. Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad i bob ffermwr gwartheg yn ystod hydref 2001 dan yr enw 'Y Rheolau Euraidd i gael Buches Iach—Cyngor ar Ail-stocio Buchesi Gwartheg'; rhoddai'r arweiniad hwn sylw i'r diciâu mewn gwartheg. Cynghora y gellir trefnu i gynnal profion preifat am y diciâu os na chafodd y buchesi y prynir o'u plith eu profi am y diciâu yn ddiweddar.

## Diciâu mewn Gwartheg (Buches heb eu Profi)

**Alison Halford:** Sawl buches yng Nghymru sydd heb gael eu profi am y diciâu mewn gwartheg? (WAQ17532)

**Carwyn Jones:** Nid oes yr un buches yng Nghymru sydd heb ei phrofi. Mae adnoddau milfeddygol ychwanegol yn cael eu cyfeirio yn awr i adfer y rhaglen dreigl o brofi am y diciâu mewn gwartheg, yn dilyn argyfwng clwy'r traed a'r genau.

## Dyddiadau Profion y Diciâu mewn Gwartheg

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu rhestr o ffermydd yn y Gogledd yn dangos dyddiad eu prawf diwethaf ar gyfer y diciâu mewn gwartheg, a dyddiad arfaethedig y prawf nesaf? (WAQ17533)

**Carwyn Jones:** Na wnaf. Ni ellir ond rhyddhau gwybodaeth o'r fath gyda chytundeb gan y ffermwyr unigol ymlaen llaw.

## Diciâu mewn Gwartheg (Cwarantin a Phrofion)

**Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ystyried cynghori ffermwyr i osod cwarantin ar stoc newydd ac i brofi unrhyw stoc a brynir am y diciâu mewn gwartheg? (WAQ17534)

**Carwyn Jones:** Rhyddhawyd pamffled cynghori dan yr enw 'Y Diciâu mewn Gwartheg—Lleihau'r Perygl' yn ystod yr hydref diwethaf i bob ffermwr gwartheg yng Nghymru. Mae hwn yn cynnwys cyngor ar sut i reoli buchesi er mwyn cyfyngu ar y posibilrwydd i'r afiechyd ledaenu.

### Diciâu mewn Gwartheg (Cymorth i Ffermwyr)

**Alison Halford:** Pa gymorth y mae'r Gweinidog yn ei roi i ffermwyr yn y Gogledd i'w cynorthwyo i gadw eu buchesi'n rhydd o'r diciâu mewn gwartheg? (WAQ17535)

**Carwyn Jones:** Mae Gogledd Cymru yn elwa o raglen brofi well yn sgîl nifer o fuchesi y cadarnhawyd iddynt gael eu chwalu. Yn ogystal, mae pob ffermwr sy'n colli anifeiliaid sydd wedi'u heintio â'r diciâu mewn gwartheg yn cael iawndal llawn.

### Diciâu mewn Gwartheg (Sgrinio)

**Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod gwartheg o ffermydd sy'n rhydd o glwy'r traed a'r genau, ond a gafodd eu cadw dan do dan amodau dwys yn ystod yr epidemig, wedi cael eu sgrinio ar gyfer y diciâu cyn eu gwerthu/symud i ffermydd eraill? (WAQ17536)

**Carwyn Jones:** Penderfyniadau masnachol yw gwartheg a brynir/gwerthir rhwng ffermwyr. Gellir prynu a gwerthu gwartheg o fuchesi nad oes cyfyngiadau afiechydon anifeiliaid penodol arnynt o fewn y trefniadau symud cyfredol ar ôl clwy'r traed a'r genau. Saif y cyfrifoldeb gyda'r unigolion dan sylw i sicrhau cyn belled â phosibl, nad yw'r gwartheg yn dioddef o'r afiechyd. Cynhwysir arweiniad ar leihau'r risg yn 'Rheolau Euraidd i gael Buches Iach—Cyngor ar Ail-stocio Buchesi Gwartheg'.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Nifer yr ACau sydd â Swyddfeydd Etholaethol

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o Aelodau'r Cynulliad sydd wedi sefydlu swyddfa etholaeth? (WAQ17717)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Mae gan bob aelod swyddfa lle mae'n cyflawni ei fusnes etholaethol.